Sefyllfa adar yng
NGHYMRU 6

RSPB

Welsh Ornithological Society
Cymdeithas Adaregol Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

BTO

WWT

Y penawdau

1. Mae'r rhestrau coch, ambr a gwyrdd wedi eu hadolygu. Mae 63 o rywogaethau wedi symud i restr o bryder cadwraethol uwch, tra bod naw wedi symud i restr is. Ni fu newid yn sefyllfa 133 o rywogaethau.

2. Mae'r nifer o gudyllod bach yn sefydlog, mae llinosiaid y mynydd wedi prinhau, ac nid yw breision yr ŷd yn nythu'n rheolaidd erbyn hyn.

3. Mae nifer **adar ffermdir** ar eu hisaf ers 1994. Mae tueddiadau **adar môr** sy'n nythu ers 1986 yn dangos bod gwylanod coesddu wedi prinhau. Ers 1977, mae mwy o rywogaethau o **adar dŵr** sy'n gaeafu wedi prinhau nag sydd wedi parhau'n sefydlog neu wedi cynyddu.

4. Dengys canlyniadau'r Arolwg Adar sy'n Nythu bod 19 o rywogaethau brodorol wedi cynyddu'n sylweddol a bod 11 wedi prinhau'n sylweddol rhwng 1995 a 2007.

5. O'r 51 **Prif Rywogaeth Bioamrywiaeth**, mae 36 yn prinhau, mae pedair yn sefydlog ac mae 11 wedi cynyddu. Dylid gwella'r gwaith o fonitro 23 o rywogaethau i ateb gofynion adrodd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

6. Dengys canlyniadau'r *Atlas* dros dro mor bell y mae crehyrod bach sy'n gaeafu wedi crwydro, ac mae arwyddion bod creciau'r eithin sy'n nythu wedi diflannu o lawer ardal yn peri pryder.

7. Dangosir mai grugieir duon yw'r unig adar sydd â photensial bod eu holl anghenion wedi eu hateb gan y cynllun amaeth-amgylcheddol, Tir Gofal. Efallai bod adar eraill wedi elwa'n rhannol. Rhaid i'r cynllun newydd, Glastir, ystyried y canlyniadau yma.

Coch y berllan

Sue Tranter (rspb-images.com)

Cynnwys

Bras melyn

Tom Marshall (rspb-images.com)

Cyflwyniad 4

Tynged ein hadar 6

Newyddion am adar 16

Edrych ymlaen 26

Tudalen ganol – statws poblogaeth adar yng Nghymru

Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae rhywogaethau'n cael eu codio mewn lliw yn ôl eu statws poblogaeth. Mae'r 45 rhywogaeth sy'n cael eu nodi fel y rhai sy'n peri'r pryder cadwraethol mwyaf ar y rhestr goch, mae'r 100 rhywogaeth o bryder canolig ar y rhestr ambr ac mae'r 68 rhywogaeth nad ydynt yn peri cymaint o bryder ar y rhestr werdd. Nid yw'r asesiad hwn yn trafod rhywogaethau anfrodorol, ac nid yw'r rhain wedi eu codio yn ôl lliw.

Jac-y-do

Sue Tranter (rspb-images.com)

Cyflwyniad

Bronfraith

Sue Tranter (rspb-images.com)

Y flwyddyn 2010 yw dyddiad gwireddu targed Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â Llywodraethau eraill o amgylch Ewrop, dros ddod â cholled mewn bioamrywiaeth i ben. Wrth edrych ar ddangosydd deuran Cynulliad Cymru o boblogaethau adar gwyllt ar dudalen 9 a'r nifer gynyddol o rywogaethau ar y rhestr goch yng Nghymru (tudalen 25), mae'n amlwg nad ydym o fewn cyrraedd y targed hwn o ran yr adar.

Mae angen i ni ddarganfod pam fod rhai adar yn prinhau a sut ddylid eu cynorthwyo. Yna mae angen i ni fonitro effeithiolrwydd polisïau newydd a roir mewn grym gennym a'r cymorth ymarferol a rown. Ni fu gorchwylion cadwraeth erioed mor bwysig ac mae'n rhaid i ni wella'r bartneriaeth rhwng y llywodraeth, ymchwil a'r sectorau gwirfoddol.

Mae *Sefyllfa Adar yng Nghymru* eleni'n adrodd ar waith gan ystod eang o gadwraeth adar. Rydym yn adrodd ar ailasesiad statws poblogaeth ein hadar, sy'n fwy adnabyddus fel y 'rhestrau coch ac ambr'. O ganlyniad mae'r nifer o rywogaethau rhestr goch yng Nghymru wedi cynyddu o 27 i 45. Mae adolygiad o **Brif Rywogaethau Bioamrywiaeth** Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi blaenoriaethu 51 o adar ar gyfer gweithredu er cadwraeth o dan broses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (CGB) sy'n nodi targedau ac amcanion allweddol ac yn arwain ymyriadau cadwraethol.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn amlygu'r angen am well monitro o'r **Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth:** nid yw'r rhaglenni monitro presennol ar gyfer 23 o'r rhain yn ateb gofynion adrodd y CGB. Mae'r gwaith maes ar gyfer project *Atlas Adar y DU ac Iwerddon* ar y gweill a bydd yn parhau hyd 2011. Bydd yr *Atlas* yn cyfrannu gwybodaeth bwysig ar ddosbarthiad (dosbarthiad daearyddol) ac amlder perthynol (niferoedd) adar sy'n nythu ac yn gaeafu yng Nghymru, diolch i ymdrechion nifer enfawr o wirfoddolwyr, yr ydym yn ddyledus iawn iddynt. Fodd bynnag, i asesu cynnydd ar ein targedau CGB, mae arnom angen rhaglen fonitro barhaus ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod i gytundeb efo'r RSPB a phartneriaid eraill y sector gwirfoddol i arwain rhaglen sy'n mesur effaith ei gynlluniau amaeth-amgylcheddol ar rywogaethau. Er bod y rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynllun Tir Gofal, gobeithir y bydd y darganfyddiadau yn dylanwadu ar y cynllun newydd Glastir, fydd yn cychwyn yn 2010.

Cynhyrchir **Sefyllfa Adar yng Nghymru 6** mewn partneriaeth rhwng RSPB Cymru, Ymddiriedolaeth Adara Prydain (y BTO), yr Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir (WWT), Cymdeithas Adara Cymru (WOS), ac Asiantaeth Gadwraeth Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).

Ymysg y mudiadau sy'n cymryd rhan mewn monitro adar yng Nghymru mae:

Ymddiriedolaeth Adara Prydain (y BTO), Cofnodwyr Sirol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ecology Matters, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Swyddogion Bioamrywiaeth Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB Cymru, Dŵr Hafren Trent, Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru, Ymddiriedolaeth Farcutiaid Cymru, Cymdeithas Adara Cymru, yr Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir ac Ymddiriedolaethau Byd Natur Cymru.

At bwrpas llyfryddol, dylid cyfeirio at yr adroddiad hwn fel Johnstone IG, Thorpe RI a Noble DG (2010). *Sefyllfa adar yng Nghymru 6*. RSPB Cymru, Caerdydd.

Gwybedog mannog

(Andy Hay / rspb-images.com)

Tynged ein hadar

Andy Hay (rspb-images.com)

Llinos y mynydd

Cudyll bach

Chris Gomersall (rspb-images.com)

Y cudyll bach yn dal ei dir

Yn draddodiadol, mae'r cudyll bach yn nythu ar y ddaear ac mewn hen nythod brân mewn coed ynysig ar y rhostir, megis drain gwynion, er eu bod bellach yn nythu hefyd mewn planhigfeydd coniffer. Mae'r aderyn ysglyfaethus bach hwn yn bwyta adar, fel corhedyddion y waun, sy'n cael eu dal ganddo ar y rhostir ac ar ffermdir cyfagos.

Mewn arolwg sampl yn 2008 amcangyfrifwyd bod yma 92 pâr. Mae hyn yn cymharu gydag 84 pâr ym 1993. Awgryma'r canlyniadau newydd fod y boblogaeth yn parhau'n sefydlog.
Arolwg SCARABBS[1]

Prinhad llinos y mynydd

Er bod poblogaeth Cymru o'r **Prif Rywogaeth Bioamrywiaeth** hon yn ymddangos fel pe bai wedi ei hynysu, mae tystiolaeth bod yr adar yn symud rhwng y boblogaeth sydd mewn perygl yn y Pennines yng Ngogledd Lloegr a Chymru, oherwydd gwelwyd yma'n ystod yr haf amryw o adar y gosodwyd modrwyau lliw ar eu coesau yn y Pennines.

Awgrymodd arolwg yn 2002 bod y boblogaeth yn 26-33 pâr. Yn 2008 cynhaliwyd yr arolwg eto yn y mannau lle cafwyd cofnodion cyn hynny ynghyd â sampl ar hap o gynefin arall addas i weld a oedd ei statws wedi newid.

Roedd canlyniadau arolwg 2008 yn awgrymu poblogaeth o 14-17 pâr. Mae hyn yn cynrychioli prinhad o 46-48% yn eu nifer ers 2002. Cafwyd tystiolaeth i gadarnhau'r prinhad hwn yn arolygon mannau bwydo yn Nant Ffrancon, Eryri, ar ôl y tymor nythu. Yn 2000, roedd yno heidiau o hyd at 200 o linosiaid y mynydd, ond yn 2008, cofnodwyd heidiau o lai na 30. Mae diffyg adroddiadau o heidiau niferus o linosiaid y mynydd mewn rhannau eraill o Gymru yn yr hydref yn awgrymu bod y prinhad hwn yn ffaith.

Mae llinosiaid y mynydd yn nythu mewn rhedyn a grug aeddfed ar lethrau serth. Mae'r cywion a'r oedolion yn bwyta hadau, yn arbennig hadau dant-y-llew, peradyl, suran a gweunwellt, ac efallai bod llai o'r rhain ar gael yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd newidiadau mewn amseru pori a thorri. Drwy osod hadau ar y ddaear, a chydweithio â rheolwyr tir, gellir ailsefydlu'r rhain yn weddol rhwydd, ac mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a RSPB Cymru'n gweithio mewn partneriaeth i sicrhau hyn.
Project a gefnogir gan Gronfa Her Rhywogaeth CCGC

1 Arolwg Blynyddol Adar Prin sy'n Nythu

Bras yr ŷd ar ymyl y dibyn

Ar un cyfnod nythai breision yr ŷd, **Prif Rywogaeth Bioamrywiaeth** sydd ar restr goch Cymru, ym mhob sir yng Nghymru. Fodd bynnag, dengys canlyniadau arolwg yn 2008 nad yw bellach yn nythu'n rheolaidd.

Cynhaliwyd arolwg llawn o fannau gyda chofnodion yng Nghymru ers 2000 (ardal y gororau rhwng Caer a'r Trallwng), a mannau cyfagos, yn 2008. Er bod o leiaf 22 o diriogaethau nythu wedi eu cofnodi mewn dim ond rhan o'r ardal hon ym 1993, ni chofnodwyd yr un aderyn yn arolwg 2008. Fodd bynnag, cafwyd cofnodion o adar yn Swydd Amwythig.

Mae breision yr ŷd yn nythu ar y ddaear mewn cnydau ac yn bwyta hadau yn y gaeaf. Fe allai adar ail-gytrefu o ardaloedd dros y ffin pe bai'n bosib annog cnydau grawn y gwanwyn a sofl dros y gaeaf.
Project a gefnogir gan Gronfa Her Rhywogaeth CCGC

Dengys cofnodion o Adroddiadau Adar Sirol bod breision yr ŷd wedi prinhau bron hyd ddifodiant yng Nghymru dros y 70 mlynedd diwethaf. Roeddynt wedi diflannu o chwe sir cyn 1950 (glas golau) ac wedi diflannu o bum sir arall rhwng 1955 a 2000 (glas canolig). Dim ond dwy sir sydd wedi cynnal parau sy'n nythu ers 2000 (glas tywyll).

Andy Hay (rspb-images.com)

Bras yr ŷd

Atlas y BTO: mapiau dros dro a gynhyrchwyd

Mae mapiau dosbarthiad o atlasau adar wedi eu defnyddio mewn cadwraeth dros y 40 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae'r mapiau yma'n cael eu diweddaru.

Defnyddir cofnodion atlasau crwydrol, ynghyd â chofnodion BirdTrack (**www.birdtrack.net**) a chynlluniau eraill megis y Cynllun Cofnodi Nythod a'r Cynllun Modrwyo, i gynhyrchu'r mapiau mwyaf cynhwysfawr posibl o ddosbarthiadau nythu a gaeafu. Bydd cyfrifiadau o'r "ymweliadau tetrad wedi eu hamseru" yn cael eu defnyddio i fapio gwahaniaethau yn amlder rhywogaethau.

Mae projectau atlas lleol yn digwydd ar yr un pryd yng Ngogledd Cymru (**www.northwalesbirdatlas.co.uk**), Sir Benfro, Brycheiniog, Sir Gaerfyrddin a Sir Forgannwg.

Gyda chymaint o gofnodion atlas yn cael eu hanfon i mewn ar lein, mae hi eisoes yn bosibl cynhyrchu rhai mapiau dros dro. Er enghraifft, gyda dim cofnodion o'r crëyr bach yng Nghymru yn yr Atlas Gaeaf diwethaf, mae'r atlas newydd yn dangos fod newid syfrdanol wedi digwydd yn nosbarthiad y rhywogaeth hon, a'i bod bellach wedi hen sefydlu o amgylch yr arfordir.

Yn seiliedig ar y tymor nythu cyntaf, mae hi'n rhy gynnar i ddweud llawer am y rhywogaethau a all fod yn prinhau yn eu dosbarthiad. Fodd bynnag, mae'r map dros dro ar gyfer crec yr eithin yn dangos arwyddion pryderus o newid. Bydd gwaith maes pellach yn 2009-2011 yn ychwanegu at y darganfyddiadau cyntaf yma ac yn sefydlu dosbarthiad presennol rhywogaethau sy'n gaeafu ac yn nythu ledled Prydain ac Iwerddon gyfan (gweler tudalen 26).

Dosbarthiad crehyrod bach yng ngaeaf cyntaf Atlas 2008-2011. Mae pob smotyn yn cynrychioli sgwâr 10 cilometr. Ni chafwyd cofnod yn ystod Atlas Gaeaf 81/82 i 83/84. Mae'r crëyr bach, sy'n debyg o ran ei siâp i'r crëyr glas, yn hela pysgod bach mewn dyfroedd llonydd a bas.



Ionawr 2009 dros dro

Crec yr eithin

Adar eang eu dosbarthiad sy'n nythu

Ers 1994, mae Arolwg Blynyddol Adar sy'n Nythu'r BTO/JNCC/RSPB (y BBS) yn adrodd ar newidiadau yn nhynged adar sy'n nythu ac sy'n eang eu dosbarthiad. Erbyn 2008, o'r 51 o rywogaethau brodorol yr adroddwyd arnynt yn unigol gan y BBS[2], mae 19 wedi cynyddu ac 11 wedi prinhau'n sylweddol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mesur iechyd yr amgylchedd yn flynyddol, ac mae adar yn cael eu cynnwys yn hyn wrth ddefnyddio **Dangosydd Adar Gwyllt** yn seiliedig ar grwpiau gwahanol o adar eang eu dosbarthiad sy'n nythu. Mae Rhan 1 y dangosydd hwn yn mesur newid mewn amlder (niferoedd) adar brodorol yr adroddwyd arnynt gan y BBS. Gostyngodd y mynegai rhwng 2007 a 2008, ond mae'n eithaf sefydlog drwyddo draw ers 1994. Fodd bynnag, fe all y sefydlogrwydd hwn a awgrymir ledled yr holl rywogaethau guddio newidiadau pwysig mewn rhywogaethau unigol a grwpiau o rywogaethau, gyda chynnydd yn y cyffredinolwyr, sy'n ffynnu o ganlyniad i'r defnydd tir presennol, yn lliniaru'r prinhad mewn arbenigwyr, y mae adnoddau ar eu cyfer bellach yn anoddach dod o hyd iddynt.

Rhaid edrych ar ran cyntaf y dangosydd bob amser o fewn cyd-destun newid hanesyddol. Darperir hwn gan ran 2 y dangosydd sy'n dangos newid mewn dosbarthiad (dosbarthiad daearyddol) rhwng 1968–1971 a 1988–1991. Mae dros hanner yr 119 o rywogaethau brodorol a gynrychiolir yn dangos bod eu dosbarthiad wedi crebachu. Mae'r crebachu hwn mewn dosbarthiad hefyd yn debygol o nodi prinhad mewn amlder.

Adar eang eu dosbarthiad sy'n nythu ar gynefinoedd a amaethir

Cynyddodd y mynegai i raddau wedi 2007 ond mae'n parhau 7% yn is na phan gychwynnwyd y dangosydd yn 1994. Mae'r dangosydd hanesyddol yn amlygu'r nifer o rywogaethau y mae eu dosbarthiad wedi crebachu, llawer ohonynt bellach yn rhy brin i'w cynnwys yng nghanlyniadau'r BBS. Er cymhariaeth gyda'r DU, dangosir y dangosydd tymor byr hefyd ar gyfer adar ffermdir yr iseldir. Yn 2008 cyrhaeddodd hwn ei bwynt isaf ers cychwyn y dangosydd, gyda'r mynegai 11% yn is nag ym 1994.

Prinhaodd pum rhywogaeth yn sylweddol (gylfinir, drudwen, tinwen y garn, llwydfron a'r bras melyn. Mae pob un heblaw tinwen y garn a'r llwydfron yn **Brif Rywogaethau Bioamrywiaeth**. Cynyddodd tair rhywogaeth yn sylweddol (nico, llinos werdd ac ysguthan).

Dosbarthiad crec yr eithin yn Atlas 1988-91 (chwith), a thymor nythu cyntaf Atlas 2008-11 (dde). Mae pob smotyn yn cynrychioli sgwâr 10 cilometr ac mae'r tri smotyn o faint gwahanol yn nodi nythu posibl (bach), tebygol (canolig) ac wedi ei gadarnhau (mawr). Aderyn glaswelltir twmpathog, rhostir a ffridd yw crec yr eithin (gweler tudalen 22), ac yno mae'n bwyta pryfed bach. Maent yn croesi'r Sahara i aeafu yn Affrica.


Ionawr 2009 dros dro

[2] Mae Arolwg Adar sy'n Nythu'r BTO/JNCC/RSPB wedi adrodd ar newidiadau yn nhynged adar eang eu dosbarthiad sy'n nythu ers 1994. Erbyn hyn mae rhediad digon hir o ddata ar gael i wirio tueddiadau wedi eu cyweirio, sy'n rhoi darlun mwy eglur o dueddiadau poblogaethau. Gan fod cyweirio'n golygu byrhau'r diweddbwyntiau, mae tueddiadau poblogaethau wedi eu labelu fel 1995-2007. Defnyddir y tueddiadau heb eu cyweirio (1994-2008) yn y dangosydd a graffiau'r rhywogaethau unigol.

Adar eang eu dosbarthiad y goedlan sy'n nythu

Roedd adar y goedlan hefyd yn fwy prin yn 2008 o'u cymharu â 2007, ond mae'r mynegai'n parhau 4% uwchben gwerth llinell sylfaenol 1994. Dengys y dangosydd hanesyddol bod dosbarthiad y rhan fwyaf o adar y goedlan yn sefydlog.

Cynyddodd deuddeg rhywogaeth yn sylweddol (mwyalchen, telor penddu, titw tomos las, siff-siaff, llwyd y gwrych, cnocell fraith fwyaf, titw mawr, sgrech y coed, delor y cnau, robin goch, bronfraith a'r dryw), a dim ond y fronfraith sy'n **Brif Rywogaeth Bioamrywiaeth**. Prinhaodd tair rhywogaeth yn sylweddol (titw penddu, telor yr ardd a thelor yr helyg).

Adar eraill eang eu dosbarthiad sy'n nythu

Mae rhai adar mewn grwpiau eraill hefyd yn dangos newidiadau amlwg dros y tymor byr. Prinhaodd tair rhywogaeth yn sylweddol (cog, pioden a gwennol ddu). Cynyddodd pedair rhywogaeth yn sylweddol (clochdar y cerrig, gwennol, turtur dorchog ac aderyn y to). Mae'r gog ac aderyn y to yn **Brif Rywogaethau Bioamrywiaeth**.

Ben Hall (rspb-images.com)

Ehedydd

Gwella'r Dangosydd Adar Gwyllt

Roedd dwy rywogaeth newydd y goedlan (gwalch glas a'r pila gwyrdd) ac un rhywogaeth newydd o gynefinoedd gwlyb (iâr ddŵr) yn cyfateb â maint y sampl trothwy i'w cynnwys yn y Dangosydd am y tro cyntaf yn 2008, gan gynyddu cyfanswm y nifer o rywogaethau i 62.

Fodd bynnag, dylid cofio nad oes modd cynnwys rhywogaethau eraill mwy prin yn y dangosydd tymor byr oherwydd cyfyngiadau ystadegol. Felly, nid yw'r **Dangosydd Adar Gwyllt** yn cynrychioli darlun cyfan o dueddiadau poblogaethau adar Cymru. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gynyddu'r ystod o rywogaethau y gellir eu cynnwys yn y dangosydd drwy gyfuno mynegeion y BBS gyda gwybodaeth o gynlluniau eraill, a chynyddu'r gwaith. Byddwn yn adrodd ar ddatblygiadau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae rhan un y Dangosydd Adar eang eu dosbarthiad sy'n Nythu ar gyfer Cymru'n nodi sut mae niferoedd adar wedi newid ers 1994 (chwith). Mae rhan dau'r dangosydd yn dangos newidiadau hanesyddol yn nosbarthiad daearyddol adar rhwng 1968-72 ac 1988-91 (dde).





Ji-binc

Ben Hall (rspb-images.com)

Dengys canlyniadau'r BBS ar gyfer Gymru dueddiadau yn amlder adar eang eu dosbarthiad sy'n nythu. Mae rhywogaethau'n cael eu cynnwys os ydynt yn bresennol mewn cymedr o 30 neu fwy o sgwariau 1-cilometr dros y cyfnod 1994 a 2008.

Cigfran

Sue Tranter (rspb-images.com)

Gwennol

Jodie Randall (rspb-images.com)

Rhywogaeth	Newid wedi ei gyweirio 1995-2007	Cyfeiriad tueddiadau arwyddocaol
Mwyalchen	44	i fyny
Telor penddu	54	i fyny
Titw tomos las	15	i fyny
Coch y berllan	-13	
Bwncath	5	
Brân dyddyn	12	
Ji-binc	-6	
Siff-siaff	17	i fyny
Titw penddu	-25	i lawr
Turtur dorchog	51	i fyny
Cog	-32	i lawr
Gylfinir	-39	i lawr
Llwyd y gwrych	36	i fyny
Telor yr ardd	-26	i lawr
Dryw eurben	-30	
Nico	48	i fyny
Cnocell fraith fwyaf	128	i fyny
Titw mawr	46	i fyny
Cnocell werdd	-2	
Llinos werdd	23	i fyny
Crëyr glas	-2	
Gwennol y bondo	16	
Aderyn y to	71	i fyny
Jac-y-do	25	
Sgrech coed	27	i fyny
Llinos	-25	
Titw cynffon-hir	7	
Pioden	-13	i lawr
Hwyaden wyllt	-17	
Corhedydd y waun	-4	
Brych y coed	6	
Delor y cnau	24	i fyny
Siglen fraith	10	
Cigfran	39	
Tingoch	-4	
Robin goch	14	i fyny
Ydfran	-12	
Ehedydd	-13	
Bronfraith	38	i fyny
Drudwen	-51	i lawr
Clochdar cerrig	201	i fyny
Gwennol	41	i fyny
Gwennol ddu	-43	i lawr
Corhedydd y coed	-11	
Dringwr bach	7	
Tinwen y garn	-24	i lawr
Llwydfron	-19	i lawr
Telor yr helyg	-21	i lawr
Ysguthan	35	i fyny
Dryw	16	i fyny
Bras melyn	-39	i lawr



Dengys canlyniadau heb eu cyweirio'r BBS ar gyfer adar ar gynefinoedd a amaethir bod drudwennod sy'n nythu, sy'n bwydo ar infertebratau ar ffermdir, yn parhau i brinhau, ond efallai bod y cynnydd enfawr yn niferoedd y nico sy'n bwyta hadau wedi dod i ben.



Dengys canlyniadau heb eu cyweirio'r BBS ar gyfer adar y goedlan bod teloriaid penddu, sy'n gaeafu yn Ewrop ac yn gynyddol yn y DU, wedi cynyddu, tra bod teloriaid yr ardd, sy'n ymfudo i Affrica is-Sahara, wedi prinhau. Mae'n well gan deloriaid penddu goedlannau aeddfed gydag isdyfiant sydd wedi datblygu'n dda, prysgwydd a llystyfiant y ddaear, tra bod teloriaid yr ardd yn fwy hoff o brysgwydd gyda chanopi agored.



Dengys canlyniadau heb eu cyweirio'r BBS bod gwenoliaid duon wedi prinhau, ond cynyddu yw hanes y ddau ymfudwr is-Sahara arall sydd â dull awyrol tebyg o fyw sy'n cynnwys bwyta pryfed (nid yw gwenoliaid y bondo wedi cynyddu'n sylweddol). Mae gwenoliaid y bondo yn gludo eu nythod o laid o dan silffoedd ar glogwyni neu o dan fargodion tai, mae gwenoliaid yn adeiladu nythod o laid ar silffoedd, yn aml mewn adeiladau sydd ag wyneb agored, tra bod gwenoliaid duon yn nythu bron yn ddieithriad mewn cilfachau bach y tu mewn i adeiladau.

Drudwen

Andy Hay (rspb-images.com)

Aderyn drycin y graig

Adar môr

Mae Cymru'n cynnal nythfeydd o adar môr sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mewn rhifynnau blaenorol o *Sefyllfa Adar yng Nghymru*, rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar statws tri aderyn môr y mae eu hymddygiad bwydo gwahanol yn cynrychioli'r ystod o ddulliau byw sydd gan adar môr yng Nghymru. Mae'r wylan goesddu yn cymryd pysgod bach ychydig o dan wyneb y dŵr. Fe all aderyn drycin y graig ddal ei ysglyfaeth drwy nofio ymhellach o dan y dŵr, a bydd hefyd yn cymryd pysgod wedi eu taflu o gychod. Mae'r wylog yn blymiwr dwfn arbenigol, ac yn bwyta pysgod mwy.

Yma rydym yn diweddaru statws yr adar yma drwy ddefnyddio gwell dull Mynegai Rhaglen Monitro Adar Môr[3], sy'n gwneud defnydd o fwy o ddata mewn achosion lle nad yw rhai nythfeydd yn cael eu cyfrif mewn ambell i flwyddyn. Dengys yr wybodaeth bod niferoedd adar drycin y graig yn sefydlog a gwylogod yn cynyddu, ond nid yw'r wylan goesddu yn ffynnu. Rhaid i ni gadw llygad ar ein poblogaethau o wylanod coesddu am arwyddion eu bod efallai'n wynebu'r un problemau ag adar mewn mannau eraill yn y DU, sef dod o hyd i fwyd i'w cywion.

3 Rhaglen Monitro Adar Môr, a gydlynir gan Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar ran ystod o fudiadau.



Mae gwylogod wedi cynyddu, ond mae arwyddion bod gwylanod coesddu'n prinhau.

Gwylan goesddu

Andy Hay (rspb-images.com)

Rhostogod cynffon-fraith

Sue Tranter (rspb-images.com)

Adar dŵr sy'n gaeafu

Mae cyfrifiadau WeBS[4] wedi canfod newidiadau ym mhoblogaethau adar dŵr fel pibydd y tywod a'r rhostog gynffonfraith, sy'n ymfudo o dwndra'r Arctig i dreulio'r gaeaf ar aberoedd Ewrop. Mae tystiolaeth bod gaeafau wedi cynhesu, a'u galluogi i dreulio'r gaeaf ar aberoedd lleidiog llawn bwyd ymhellach i'r dwyrain a'r gogledd nag arfer: ffenomenon sy'n golygu nad ydynt yn hedfan mor bell. Fodd bynnag, mae effeithiau newid hinsawdd yn ansicr oherwydd fe all cyfres o aeafau oerach ynghyd ag effeithiau codiad yn lefel y môr, y disgwylir iddynt fod ar eu gwaethaf ar hyd arfordir Môr y Gogledd, olygu bod aberoedd Cymru'n dal yn debygol o fod â rôl bwysig i'r rhywogaethau hynny wrth iddynt addasu i newid hinsawdd.

Defnyddir WeBS Alerts, a gyfrifir pob tair blynedd, i gynhyrchu dangosydd adar dŵr, a ddiweddarir isod i'r adroddiad Alerts olaf ar gyfer gaeaf 2003/04. Mae Alerts pwysig tymor hir wedi eu rhoi ar waith ar gyfer naw rhywogaeth (hwyaden fwythblu, hwyaden bengoch, gŵydd dalcen-wen Ewropeaidd, alarch y Gogledd, alarch Bewick, cwtiad torchog, pibydd y tywod, rhostog gynffonfraith a chwtiad y traeth.) Mae'r cwtiad torchog a'r rhostog gynffonfraith yn **Brif Rywogaethau Bioamrywiaeth**.



Tynged adar dŵr sy'n gaeafu yng Nghymru. Dengys y graffiau newidiadau yn amlder 17 o adar dŵr ac 13 o rydwyr dros y tymor byr (1997/98-2003/04: chwith) a thymor hir (1977/78-2003/04: dde). Mae'r nifer sy'n prinhau yn cynrychioli'r nifer o WeBS Alerts a roddwyd ar waith.

[4] Mae Arolwg Adar y Gwlyptir y BTO/RSPB/JNCC (WeBS) wedi monitro'r rhain yn flynyddol ers diwedd yr 1960au. Defnyddir y cyfrifiadau i wirio'r WeBS Alerts sy'n amlygu prinhad mewn poblogaethau ymysg adar dŵr eang eu dosbarthiad. Mae'r rhan fwyaf o adar dŵr sy'n cael eu cyfrif gan WeBS yn nythu i'r gogledd o Gymru, tra bod rhai adar dŵr sy'n nythu yng Nghymru'n ymfudo ymhellach i'r de i aeafu. Mae WeBS Alerts yn adrodd ar y safleoedd cyfan, er bod nifer uwch o rai rhywogaethau ar aberoedd Hafren a'r Dyfrdwy ar yr ochr Seisnig.

Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth

Statws y Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth a hiliau.

Mae angen gweithredu cadwraeth ar frys yng Nghymru[5] ar gyfer 51 o rywogaethau, yn cynnwys dwy hil. Mae trideg a chwech yn prinhau, mae 11 wedi cynyddu ac mae pedair yn sefydlog (newid o <5%), ac mae un ohonynt yn nythu'n achlysurol. Mae monitro'n ateb gofynion adrodd y CGB (arolygon sy'n ddigon manwl gywir a ailadroddir ar gylch o chwe-mlynedd) ar gyfer 28 o'r rhain.

Enw	Tueddiad (%)	Blynyddoedd	Ffynhonnell	Sylwadau
Telor y dŵr	Sefydlog	1981-08	INF	Adroddiadau Adar Sirol
Aderyn drycin Balearig	Cynyddu	1992-00	INF	Gwylio'r môr o bentiroedd
Rhostog gynffonfraith	-76	78/79-04/05	WeBS	
Alarch Bewick (y twndra)	Sefydlog	78/79-04/05	INF	Adroddiadau Adar Sirol
Aderyn y bwn (yn nythu)	Nodir fel aderyn wedi diflannu	1981-08	INF	Adroddiadau Adar Sirol
Grugiar ddu	-19	1986-05	WS & UKS	
Gwylan benddu	-75	1976-2000	WS & UKS	
Gŵydd ddu (bol tywyll)	+306	78/79-04/05	WeBS	
Coch y berllan	-13	1995-07	BBS	
Brân goesgoch	+48	1992-02	UKS	
Môr-hwyaden ddu	+80	78/79-04/05	WeBS	
Bras yr ŷd	-100	1981-08	INF & WS	Adroddiadau Adar Sirol
Rhegen yr ŷd	-100	1981-08	INF	Adroddiadau Adar Sirol
Cog	-32	1995-07	BBS	
Gylfinir	-81	1993-06	WS	
Llwyd y gwrych	+36	1995-07	BBS	
Cwtiad aur	-83	1982-07	WS	
Troellwr bach	-80	1981-06	UK data	Blaenoriaeth fel rhagofal
Petrisen	-78	1981-06	UK data	Tystiolaeth anffurfiol o'r un tueddiad yng Nghymru
Gylfinbraff	<-25	1985/89-1995/99	INF	Adroddiadau Adar Sirol
Boda tinwyn	+59	1998-04	UKS	
Gwylan y penwaig	+33	1986-00	UKS	
Aderyn y to	+106	1994-08	BBS	
Cudyll coch	<-50	1994-06	INF	Prinhau ym Mrycheiniog
Cornchwiglen	-77	1987-98	UKS	
Llinos bengoch leiaf	-88	1969-06	UK data	Blaenoriaeth fel rhagofal
Cnocell fraith leiaf	-71	1969-06	UK data	Tueddiad tebyg i'r DU yn seiliedig ar farn arbenigol
Llinos	-25	1995-07	BBS	
Titw'r wern	-39	1981/88-03/04	UKS	
Troellwr mawr	328	1981-04	UKS	
Gwybedog brith	-16	1981/88-02/04	UKS	
Grugiar goch	Prinhau	1950-08	INF	Barn arbenigol
Cigydd cefngoch	Achlysurol	1981-08	INF	Adroddiadau Adar Sirol
Bras y cyrs	-30	1969-06	UK data	Blaenoriaeth fel rhagofal
Mwyalchen y mynydd	-69	1999-06	WS	

Andy Hay (rspb-images.com)

Llinos

Enw	Tueddiad (%)	Blynyddoedd	Ffynhonnell	Sylwadau
Cwtiad torchog (gaeaf)	-62	78/79-04/05	WeBS	
Môr-wennol wridog	-100	1986-07	SMP	
Ehedydd	-13	1995-07	BBS	
Bronfraith	+38	1995-07	BBS	
Gwybedog mannog	-58	1981/88-03/04	UKS	
Drudwen	-51	1995-07	BBS	
Corhedydd y coed	-11	1995-07	BBS	
Golfan y mynydd	-93	1969-06	UK data	Tueddiad tebyg i'r DU yn seiliedig ar farn arbenigol
Turtur	-100	1981-08	WS & INF	Adroddiadau Adar Sirol
Llinos y mynydd	-46	2002-2008	WS	
Gŵydd dalcen-wen (Yr Ynys Las)	+1	88/89-06/07	WeBS	
Titw'r helyg	-88	1969-06	UK data	Blaenoriaeth fel rhagofal
Telor y coed	-25	1981/88-03/04	UKS	
Ehedydd y coed	Cynnydd	1980s-2008	WS & INF	Adroddiadau Adar Sirol
Siglen felen	-71	1969-06	UK data	Tueddiad tebyg i'r DU yn seiliedig ar farn arbenigol
Bras melyn	-39	1995-07	BBS	

Dulliau monitro
AER = Arolwg o'r awyr o fannau pwysig
INF = Cofnodion anffurfiol, ee Adroddiadau Adar Sirol
UKS = Arolwg Iedled y DU, yn cynnwys SCARABBS
WS = Arolwg Cymru
BBS = Mynegai amlder BBS
SMP = Rhaglen fonitro adar môr
WeBS = WeBS Alerts

[5] Detholwyd rhywogaethau yn seiliedig ar bryder am eu statws poblogaeth ryngwladol, yn y DU a Chymreig, ynghyd â'r bygythiadau y credir fod eu poblogaethau'n eu hwynebu. Mae'r gweithrediadau i gefnogi gwireddu'r targedau CGB ar gyfer y rhywogaethau hyn ar gael drwy gyfrwng y System Adrodd Gweithredu er Bioamrywiaeth (BARS) www.ukbap-reporting.org.uk

Newyddion am adar

Dengys y symbolau enghreifftiau o fonitro adar ac ymchwil, Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth a lle mae gwirfoddolwyr wedi cynorthwyo i sicrhau'r canlyniadau.

Monitro adar ac ymchwil

Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth

Gweithredu gan wirfoddolwyr

Dilyn boda'r mêl i Affrica ac yn ôl

Cafwyd y dystiolaeth gyntaf bod bodaod y mêl yn nythu yng Nghymru ym 1992 ac ers hynny mae eu nifer wedi cynyddu. Mae'r adar yma'n bwydo ar larfau gwenyn a gwenyn meirch yng Nghymru, ond yn ymfudo i fforestydd trofannol Affrica is-Sahara i dreulio'r gaeaf.

Fodd bynnag, heblaw am un aderyn a fodrwywyd yng Nghymru y cafwyd adroddiad ohono o Ghana, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am eu dosbarthiad yn y gaeaf. I ymchwilio i hyn, gosodwyd offer tracio â lloeren ar ddau foda'r mêl o wahanol nythod yn 2008. Yr amcan oedd dysgu mwy am eu mannau gaeafu, llwybr ymfudo a'u symudiadau ar ôl dod yn ôl i nythu. Bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall pa fygythiadau all wynebu'r adar yma ac effeithio ar y nifer o adar sy'n nythu yng Nghymru yn y dyfodol. Rhoir y project ar waith a thelir amdano gan Ecology Matters Ltd fel rhan o astudiaeth ehangach ar fodaod y mêl a ffermydd gwynt, ac fe'i rhan-ariennir gan Nuon Ltd. Ceir manylion am y project, a hanes diweddaraf yr adar, ar: **www.ecologymatters.co.uk/honey_buzzard.shtml**

Llwybr ymfudo bodaod y mêl Cymreig

Glas = Ceiliog – Ymfudo hydref 2008
Gwyrdd = Iâr – Ymfudo hydref 2008
Pinc = Iâr – Ymfudo'n ôl yn y gwanwyn 2009

Jodie Randall (rspb-images.com)

Cornchwiglod

Rheolaeth cornchwiglod ar brawf

Yn gyffredin iawn ym mhob rhan o Gymru ar un pryd, mae'r gornchwiglen wedi prinhau o 77% i 1,698 pâr rhwng 1987 ac 1998. Mae'n debyg bod y boblogaeth yng Nghymru bellach oddeutu 600 pâr. Heb waith cadwraeth llwyddiannus, mae'n debyg y bydd y gornchwiglen yn mynd yn brin iawn fel aderyn sy'n nythu yn y cefn gwlad ehangach yn y 10 mlynedd nesaf. Efallai y byddant hyd yn oed yn cael eu cyfyngu i warchodfeydd natur.

Mae dull o weithredu rheolaeth cynefin ar gyfer y gornchwiglen ar brawf ger Hiraethog, Conwy, fel rhan o broject gan yr RSPB ledled y DU, a gefnogir yng Nghymru gan CCGC, Asiantaeth Amgylchedd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Yn dilyn monitro baslin o'r nifer o barau, llwyddiant nythu a chyflwr y safle, mae rhai safleoedd bellach wedi derbyn rheolaeth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys torri brwyn, newid patrymau pori a chreu pantiau gwlyb i wella amodau bwydo. Bydd monitro parhaus, sy'n cael ei gyfuno gyda monitro safleoedd eraill yn y DU, yn profi a yw'r rheolaeth a gymeradwyir gan yr RSPB yn sicrhau gwell llwyddiant nythu digonol i arafu'r prinhad mewn ardaloedd o ucheldir. Bydd y project ar waith hyd 2011 ac mae'n dibynnu ar gefnogaeth llawer o dirfeddianwyr o fewn ardal Hiraethog.

Nodwyd mai llwyddiant nythu isel yw un rheswm dros eu prinhad. Er bod gwelliannau yng nghyflwr y cynefin yn gallu lleihau colledion i ysglyfaethwyr, mae angen mesurau eraill mewn rhai achosion. Awgrymwyd ffensio trydan fel dull o golli llai o wyau a chywion y gornchwiglen i famaliaid sy'n ysglyfaethu arnynt. Mae gwaith ar y gweill ar warchodfa natur Ynys-hir a gwarchodfeydd eraill yn y DU i brofi pa mor effeithiol yw ffensys o'r fath gyda gwella llwyddiant nythu'r gornchwiglen. Mae canlyniadau cynnar yn awgrymu bod gwell llwyddiant y tu mewn i ffensys o'u cymharu gyda nythod y tu allan, a gwnaed mwy o waith yn 2009.

Gylfinir

Tom Marshall (rspb-images.com)

Gwarchodfa natur yr RSPB yn fan i brofi rheolaeth ar ran y gylfinir

Yng Nghymru, prinhaodd y gylfinir o 81% rhwng 1993 a 2006. Ar warchodfa natur Llyn Efyrnwy'r RSPB, cafwyd prinhad tebyg yn eu nifer. Mewn ymateb, rhoddwyd project ar waith i asesu syniadau ar gyfer adfer priodoldeb hoff gynefin y gylfinir yn ystod gaeaf 2006/07.

Defnyddiwyd presgripsiynau potensial cynlluniau amaeth-amgylcheddol i ddarparu adnoddau ar gyfer gylfinirod ar yr ucheldir. I greu safleoedd nythu a mannau bwydo cywion ar ardal y rhostir, torrwyd lleiniau mewn brwyn a glaswelltir trwchus, yna rhoddwyd gwartheg i bori yno, a chrëwyd nifer o fannau llaith bychan. Ar y glaswelltir wedi ei wella ar gwr y waun, ychwanegwyd tail ychwanegol a, lle'r oedd pryder ynglŷn â pH y pridd, ychwanegwyd calch gyda'r nod o gynyddu dwysedd yr infertebratau (pryfed genwair/mwydod yn bennaf) oedd ar gael i'r gylfinir.

Cynyddodd y nifer o ylfinirod o ddau bâr, cyn dechrau'r prawf, i bum pâr, yn wahanol i'r tueddiad tymor hir, gydag o leiaf un pâr yn magu cywion yn 2008. Bydd data am yr infertebratau a defnydd yr adar ohonynt a gasglwyd yn 2009 yn ein cynorthwyo i gysylltu'r ymateb hwn gyda rheolaeth y cynefin. Oherwydd graddfa'r project roedd angen cydweithrediad a chefnogaeth ffermydd Tŷ'n y Garreg a Nant y Coedwr ar lan Llyn Efyrnwy.

Pam fod y cwtiad aur yn diflannu fel aderyn sy'n nythu yma?

Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yr Elenydd yn cynnal y boblogaeth fwyaf yng Nghymru o gwtiaid aur sy'n nythu. Efallai na fydd gwella cyflwr y cynefin yn ateb anghenion adar â blaenoriaeth fel y cwtiad aur. Yn wir, prinhaodd eu nifer rhwng 1982 a 2007: o uchafswm o dros 100 yn yr 1970au, nid oes bellach ond 11 pâr ar ôl.

Fel mewn mannau eraill, yr orgors yw hoff gynefin y cwtiad aur ar yr Elenydd. Dengys nifer o astudiaethau eraill bod y nifer o gwtiaid aur sy'n nythu'n is lle mae'r llystyfiant yn fwy dwys (mae dwysedd llystyfiant yn tueddu i gynyddu gyda'i uchder).

Ar yr Elenydd, cymharwyd dwysedd y llystyfiant mewn tiriogaethau presennol a blaenorol y cwtiad aur (a fesurwyd yn 2000, fel rhan o broject Adran yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig), gyda pherthynas y cwtiad aur/dwysedd llystyfiant a gyhoeddwyd. Dengys y canlyniadau bod y llystyfiant bellach yn rhy drwchus i ddisgwyl y nifer o gwtiaid aur a gofnodwyd ym 1982. Roedd niferoedd ym 1982 yn gyson â dwysedd llystyfiant isel, ac fe gefnogir hyn gan sylwadau ar y cynefin ar y pryd. Mae lleihad yn y nifer o ddefaid yn y degawdau diwethaf yn debygol o fod wedi peri cynnydd yn nwysedd y llystyfiant: mae dwysedd defaid wedi gostwng ers yr 1970au a bellach maent tua hanner y nifer yn 1893-1983 ar gyfartaledd.

Fel mater o frys, rhaid rhoi prawf ar reolaeth, gan ddefnyddio torri a phori i ail-greu cynefin nythu'r cwtiad aur, heb effeithio ar y cymunedau o lystyfiant sy'n bwysig yn rhyngwladol.
Project Cronfa Her Rhywogaethau'r CCGC

Chris Gomersall (rspb-images.com)

Cwtiad aur

Michael Morris (RSPB)

Pyllau corsiog yn Efyrnwy



Gellir integreiddio rheolaeth ar gyfer adar â blaenoriaeth a chynefinoedd pwysig ar yr ucheldir ar SDdGA Elenydd wrth ddefnyddio'r parthau rheolaeth arfaethedig yma.

Integreiddio rheolaeth adar â blaenoriaeth gyda chynefinoedd pwysig yr ucheldir

Mae llawer o ucheldir Cymru'n cynnal bioamrywiaeth bwysig, ac mae'r ardaloedd gorau wedi eu dynodi'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac/neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA). I gynnal yr amrywiaeth hon, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â rheolaeth. Heb reolaeth, bydd cynefinoedd yn newid cymaint fel na fydd y bywyd gwyllt yr ydym yn ei werthfawrogi'n gallu goroesi yno mwyach. Ariannwyd yr RSPB gan CCGC i gynhyrchu golwg fanwl yn seiliedig ar fapiau o flaenoriaethau rheolaeth dros adar ar ddwy SDdGA/AGA yr ucheldir: y Berwyn a'r Elenydd.

I wneud hyn, rhoddwyd sgôr i'r rhywogaethau pwysig o adar yn gyntaf yn ôl eu blaenoriaeth o ran cadwraeth, ac yn ail yn ôl eu hangen am reolaeth benodol i'r rhywogaethau (ee creu/cynnal porfa fer neu glytwaith o gynefinoedd). Yna mapiwyd yr holl ddata ar gyfer y rhywogaethau hyn a'u defnyddio i nodi eu hoff ardaloedd ar hyn o bryd ac yn y gorffennol. Yna, rhannwyd pob safle yn barthau rheolaeth ar wahân, yn seiliedig ar yr ardaloedd hyn a'r sgoriau graddedig o ran blaenoriaeth cadwraeth ac anghenion rheolaeth.

Er yn syml ac yn holl gynhwysol, mae'r mapiau'n darparu cynllun o le a sut i reoli parthau o fewn y safleoedd hyn i gynnal yr amrywiaeth o adar y'u dynodwyd ar eu cyfer yn y lle cyntaf. Y cam nesaf yw integreiddio'r rheolaeth hon gyda rheolaeth i adfer cynefin i gyflwr da, ac ymestyn y dull i safleoedd mawr eraill ar yr ucheldir.
Cytundeb CCGC i'r RSPB

Fe all ffermydd gwynt sicrhau gwelliannau mewn cynefin

Mae cyngor Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu ynni adnewyddadwy (TAN8) yn trafod ffermydd gwynt ar y lan. Mae'n nodi saith Ardal Chwilio Strategol (AChS) ac o fewn y rhain mae rhagdybiaeth gyffredinol sy'n ffafrio eu datblygiad.

Mae'r TAN8 hefyd yn rhoi cyngor ar yr angen i reoli bywyd gwyllt sy'n berthynol i ddatblygiad ffermydd gwynt mewn AChS. I ddarparu enghraifft o ymarfer gorau o roi hyn ar waith, ac mewn partneriaeth â CCGC, Awdurdodau Cynllunio Lleol Conwy a Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth Fywyd Gwyllt Gogledd Cymru, mae'r RSPB wedi cynnal astudiaeth achos ar gyfer un AChS: Coedwig Clocaenog yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Y nod oedd cynhyrchu Meistrgynllun a oedd yn nodi pa fathau o gynefin cyffredinol ddylai gael eu gwarchod, eu hadfer neu eu creu, yn seiliedig ar ddata am gynefinoedd a rhywogaethau yn yr ardal.

Gobeithio y bydd modd ymgorffori hyn i'r arweiniad cynllunio ychwanegol lleol, i'w ddefnyddio mewn trafodaethau gyda datblygwyr ffermydd gwynt ar y lan, ac y bydd yr AChS eraill yn dilyn yr enghraifft hon.

Andy Hay (rspb-images.com)

Grugiar ddu

Sue Tranter (rspb-images.com)

Corhedydd y coed

Ailadrodd arolwg i gynorthwyo gyda rheolaeth y ffridd

Saif cynefin y ffridd, sef y parth ymylol ar yr ucheldir, rhwng rhostir agored heb ei amgáu a gwaelod y dyffryn. Mae'n debyg bod y parth hwn wedi datblygu mwy yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o Brydain. Mae llystyfiant y ffridd yn amrywio'n fawr o laswellt unffurf neu redyn i glytweithiau cymhleth o laswellt, rhedyn, grug, eithin, prysgwydd arall a choed. Yn gynyddol, mae ffridd yn cael ei gydnabod fel cydran bwysig o dirluniau ar gyfer bioamrywiaeth, yn enwedig ar gyfer infertebratau ac i adar fel corhedydd y waun a chrec yr eithin. Bu'n barth deinamig erioed, gyda phwysau economaidd yn dylanwadu ar amaethyddiaeth sydd yn ei dro'n dylanwadu ar gymeriad y ffridd.

Mewn astudiaeth o 120 o safleoedd ar ffriddoedd yn yr 1980au amlygwyd pwysigrwydd cyfansoddiad y llystyfiant wrth benderfynu ar amlder ac amrywiaeth yr adar a oedd yn nythu yno. Er enghraifft, mae presenoldeb hyd yn oed ychydig o goed yn cael effaith fawr. Fodd bynnag, mae angen i ni wybod pa fathau o ffridd sydd fwyaf gwerthfawr i fyd natur, a datblygu arweiniad ar reolaeth i'w creu a'u cynnal.

I wneud hyn, mae project newydd gan y BTO/CCGC yn archwilio sut mae rhywogaethau o adar sy'n nythu wedi eu dosbarthu mewn perthynas â strwythur a chyfansoddiad y llystyfiant ar y ffridd. Mae arolwg ar y gweill mewn 25 o safleoedd astudiaeth yn Eryri ac ar y Berwyn. Ar bob safle mae graddiant o lystyfiant a defnydd tir, yn cynnwys arwynebeddau o dir a amaethir yn weddol ddwys, ffridd a rhostir. Bydd y data hwn yn ei gwneud yn bosibl cysylltu cymunedau o adar gyda nodweddion y cynefin a darparu baslin ar gyfer asesu sut fydd newidiadau amgylcheddol yn y dyfodol, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â defnydd tir, yn effeithio ar gyfansoddiad llystyfiant a chymunedau o adar.

A yw arolygon adar Cymru'n ddigon da?

Ceir dros 400 rhywogaeth o adar yng Nghymru. Maent yn byw mewn gwahanol gynefinoedd, yn amrywio yn yr adeg o'r flwyddyn maent yn ei dreulio yma (preswyl, ymfudwyr sy'n nythu neu'n gaeafu), ac yn amrywio o'r eang eu dosbarthiad i'r prin. Ar hyn o bryd mae ystod o gynlluniau arolygu ar waith yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes golwg gyffredinol ar ba mor dda y gellir adrodd ar statws rhywogaethau o adar mewn grwpiau gwahanol.

I adolygu hyn, ariannwyd astudiaeth gwmpasu gan CCGC. Roedd rhan gyntaf yr arolwg yn trafod lefelau presennol o wyliadwriaeth gan wahanol gynlluniau, a'r themâu y mae angen i'r cynlluniau hyn adrodd arnynt gyda'i gilydd - er enghraifft, **Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth**, rhywogaethau anfrodorol, rhywogaethau sy'n sensitif i'r hinsawdd ac adar ar safleoedd dynodedig.

Roedd ail ran yr arolwg cwmpasu'n amlinellu pa arolygon ychwanegol – er enghraifft mwy o arwynebedd yn cael ei arolygu gan y BBS ac ailadrodd mwy o arolygon ar rywogaethau unigol – sydd eu hangen i alluogi un thema, statws pob un o'r 51 **Prif Rywogaethau Bioamrywiaeth**, i gael ei asesu'n ddigon aml yn y dyfodol.



Ben Hall (rspb-images.com)

A oedd y potensial gan Tir Gofal i fod o fudd i adar â blaenoriaeth?

Mae angen ateb tair amod cyn i gynlluniau amaeth-amgylcheddol (CAA) ddarparu buddion poblogaeth i rywogaethau. Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r presgripsiynau priodol (y rhai sydd â thebygolrwydd uchel o sicrhau adnoddau tyngedfennol megis bwyd a safleoedd nythu) fod ar gael. Yn ail, rhaid i'r cynllun gael ei roi ar waith lle mae'r rhywogaeth yn debygol o fyw (ar ffermydd o fewn ardaloedd allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru). Yn drydydd, rhaid i ddigon o ffermwyr a thirfeddianwyr ymuno â'r cynllun a rhaid i'r ansawdd fod yn ddigon da i wella graddfeydd demograffig megis llwyddiant nythu a goroesiad. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a oedd Tir Gofal wedi gwireddu unrhyw un o'r rhain.

Yn 2008, lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gytundeb gyda Chadwraeth Gloÿnnod Byw, yr Ymddiriedolaeth Warchod Ystlumod, Plantlife, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a'r RSPB i wneud yr asesiad aml-dacsa (anifeiliaid a phlanhigion) Ewropeaidd cyntaf o botensial CAA i wireddu gwelliannau mewn bioamrywiaeth.

Roedd gan yr astudiaeth dri phrif ddarganfyddiad. Yn gyntaf, roedd gan Tir Gofal y potensial i ddarparu'r presgripsiynau priodol yn y mannau iawn ac ar y dwysedd iawn i gynorthwyo'r rugiar ddu. Yn ail, ar gyfer adar sy'n bwyta hadau fel golfan y mynydd a'r bras melyn, roedd y cynllun yn cynnwys y presgripsiynau cywir, ond nid oedd digon wedi ymuno â'r cynllun ac yn aml nid oeddynt yn y lleoedd cywir. Yn drydydd, nid oedd y cynllun yn cynnwys y presgripsiynau cywir ar gyfer tair rhywogaeth sef y gornchwiglen, y gylfinir a'r frân goesgoch, felly nid oedd disgwyl iddo fod o fudd i'r adar yma.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu gwerthusiad arbrofol o Dir Gofal i brofi'r darganfyddiadau hyn (gweler tudalen 26). Serch hynny, rhaid i'r cynllun Glastir a gyhoeddwyd yn ddiweddar ystyried yr wybodaeth hon o'r dechrau os yw'n bwriadu ateb ei ymrwymiadau o ran bioamrywiaeth.

Sue Tranter (rspb-images.com)

Barcud

Adolygu'r rhestrau coch-ambr-gwyrdd

Mae asesu statws poblogaeth (crynodeb syml o wybodaeth ar niferoedd a thueddiadau yng Nghymru ac yn rhyngwladol) yn allweddol i ddethol blaenoriaethau cadwraeth da. Mae adolygiad y rhestr a gyhoeddwyd yn 2002 yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd rhwng 1969-2006 i ailasesu rhywogaethau unigol, ac os yw eu statws wedi newid, eu penodi i liw newydd sy'n adlewyrchu hyn.

Roedd yr adolygiad yn trafod holl rywogaethau Cymru, heblaw'r rhai sydd i'w gweld yma fel adar crwydrol yn unig, ac ymfudwyr anaml a phrin, ond yn cynnwys rhywogaethau sydd o dan fygythiad yn fyd-eang ac sydd wedi eu gweld yng Nghymru ym mhob un o'r 25 mlynedd diwethaf. Mae rhai rhywogaethau sy'n frodorol i Ewrop ac sydd wedi cytrefu yma yn y degawdau diwethaf yn cael eu cynnwys, ond ni chynhwysir rhywogaethau anfrodorol. Gallwch ddarllen yr adroddiad ar www.rspb.org.uk/wales

Mae'r rhestr goch ar gyfer yr adar sydd o dan fygythiad yn fyd-eang, ac sydd wedi prinhau'n ddifrifol yn hanesyddol neu'n ddiweddar. Mae'r rhestr ambr ar gyfer adar sy'n dangos adferiad o brinhad hanesyddol, prinhad canolig, neu sy'n lleol, yn brin neu'n bwysig yn rhyngwladol. Mae'r rhestr werdd ar gyfer adar eraill, yn cynnwys y rhai sy'n dangos adferiad pellach. O'r meini prawf sy'n fodd i benderfynu a yw'r holl rywogaethau yn cymhwyso, mae'r uchaf ymysg y coch, yr ambr a'r gwyrdd yn penderfynu'r lliw y'u dynodir iddynt.

Aseswyd dau gant a thair ar ddeg o rywogaethau, ac roedd 45 (21%) yn gymwys ar gyfer y rhestr goch, 100 (47%) ar gyfer y rhestr ambr a 68 (32%) ar gyfer y rhestr werdd. Aseswyd saith rhywogaeth am y tro cyntaf. O ganlyniad i'r asesiad ychwanegwyd 21 rhywogaeth at y rhestr goch, gan adlewyrchu cyfuniad o fwy o wybodaeth a dirywiad yn eu statws. Symudwyd tair rhywogaeth o goch i ambr, a dim ond chwech o ambr i wyrdd. Dengys hyn, er gwaethaf llwyddiant cadwraethol rhai rhywogaethau yng Nghymru (ee barcud, grugiar ddu a'r fôr-wennol fechan), mai dim ond ar rai agweddau o'u statws poblogaeth y mae hyn wedi effeithio.

Cyflwynir y rhestrau adolygedig ar dudalennau canol yr adroddiad hwn. Maent i'w defnyddio ar y cyd â gwybodaeth arall, megis bygythiadau a wynebir, i ddethol blaenoriaethau cadwraeth ar gyfer Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

Andy Hay (rspb-images.com)

Boda tinwyn

Edrych ymlaen

Andy Hay (rspb-images.com)

Brân goesgoch

Gwerthusiad newydd arbrofol o CAA Cymreig ar y gweill

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu gwerthusiad ffurfiol, tair blynedd o effaith CAA ar rywogaethau yng Nghymru. Bydd yn cael ei weithredu gan gonsortiwm o gyrff cadwraethol, a arweinir gan yr RSPB. Mae'r Llywodraeth wedi gosod dau gwestiwn allweddol. Yn gyntaf, ydy CAA yn cyfrannu tuag at gynnal a gwella amlder rhywogaethau? Yn ail, ydy CAA yn cyfrannu at allu rhywogaethau i wrthsefyll rhai ffactorau: hynny yw eu gallu i ddygymod â newid yn yr adnoddau hanfodol y mae eu hangen arnynt? Bydd y consortiwm yn ateb y cwestiynau hyn drwy gasglu a dadansoddi data ar gasgliad o rywogaethau penodol o bum tacsa. Y rhywogaethau penodol o adar yw'r gylfinir, y gornchwiglen, y bras melyn, y frân goesgoch a'r rugiar ddu, er bod data'n cael ei gasglu ar bob rhywogaeth a welir.

Mae cymhariaeth o ffermydd CAA gyda ffermydd 'rheoli' oddi allan i CAA ac ardaloedd allweddol y rhywogaethau'n hanfodol bwysig wrth werthuso effaith y cynlluniau ar amlder. Mae nodi "ardaloedd-allweddol" ar gyfer rhywogaethau penodol ymlaen llaw yn sicrhau bod modd chwilio am effeithiau buddiol potensial ar ffermydd lle mae'r adar yn bresennol. Bydd setiau data tymor hir ar gyfer y frân goesgoch a'r rugiar ddu hefyd yn galluogi gwerthusiad i benderfynu a yw CAA hefyd yn gwella gallu rhywogaethau i wrthsefyll rhai ffactorau a'u bod yn fwy gwydn.

Sue Tranter (rspb-images.com)

Tingoch

Ailadrodd astudiaeth coedydd derw'r Atlantig

Mae pedwar ymfudwr pellter maith sy'n nodweddiadol o goedydd derw gorllewin yr Atlantig - y gwybedog brith, y tingoch, telor y coed a chorhedydd y coed - wedi prinhau yng Nghymru yn y degawdau diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg beth sydd wedi achosi'r prinhad hwn ac amcan project newydd yw profi ystod o syniadau am hyn. Er enghraifft, a yw'r problemau'n digwydd yn eu hardaloedd gaeafu yn Affrica, neu yma yng Nghymru? Os yw agweddau o'u cynefin nythu yn cyfrannu at eu prinhad, bydd angen gwell dealltwriaeth arnom o sut y dylem reoli coedydd derw Cymru sydd ag arwyddocâd byd-eang.

Bydd y project hwn a ariennir gan RSPB Cymru a CCGC yn canolbwyntio ar delor y coed, a arolygwyd yng nghoedydd derw Powys yn yr 1980au ac yn 2003/04, ac ym mhle mae wedi prinhau fwyaf a hyd yn oed wedi diflannu o goedlannau penodol. Bydd arolygon adar newydd, a gychwynnodd yn 2009, ynghyd â data manwl ar lwyddiant nythu, cynefin, a niferoedd lindys o goedydd gyda thueddiadau poblogaeth gwahanol, yn penderfynu a yw achosion y prinhad i'w cael yma yng nghoedydd derw Cymru.

Andy Hay (rspb-images.com)

Rhegen yr ŷd

Daw ein gwybodaeth am sefyllfa adar yng Nghymru o ganlyniad i ymdrechion enfawr gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Adara Prydain (y BTO), rhwydwaith cofnodi adar sirol, RSPB Cymru, Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru, Cymdeithas Adara Cymru a'r Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir (WWT). Os ydych chi'n un o'r gwirfoddolwyr hynny, diolch yn fawr iawn i chi. Os ydych yn ystyried cynorthwyo adar yng Nghymru, mae arnom angen mwy o wirfoddolwyr bob amser. Cysylltwch â'r corff priodol (mae eu manylion i'w cael ar du mewn cefn yr adroddiad hwn) os hoffech chi gymryd rhan mewn unrhyw arolwg neu gyfrannu cofnodion. Hoffem hefyd ddiolch i'r tirfeddianwyr a'u hasiantau, tenantiaid a staff sydd wedi galluogi'r arolygwyr i ymweld â'u tir i gyfrif adar.

Arolygon adar

Rhegen yr ŷd

Cynhaliwyd cyfrifiad rhegen yr ŷd yn y DU yn 2009. Er nad yw'r rhegen yr ŷd wedi nythu yng Nghymru ers 1992, mae adroddiadau o adar yn galw wedi eu hanfon i mewn yn fwy diweddar, ac mae'n bosibl bob amser y bydd yr adar yn nythu. Dylech anfon cofnodion o geiliogod yn galw i'r RSPB.

Atlas Adar

Mae angen mwy o wirfoddolwyr i ymweld â phob rhan o Gymru ar gyfer *Atlas Adar 2007-2011*, fel bod modd diweddaru mapiau dosbarthiad ac amlder: gweithgaredd sydd bellach yn cael ei alw'n "Atlasio".

Defnyddir dau ddull cyflenwol o waith maes i gasglu data. Mae "cofnodion crwydrol" yn helpu i sicrhau bod mapiau dosbarthu mor gynhwysfawr â phosibl, tra defnyddir cyfrifiadau o "ymweliadau tetrad wedi eu hamseru" i fapio amlder perthynol rhywogaethau ym mhob un o'r 278 o sgwariau map 10x10 cilometr yng Nghymru. Os hoffech anfon cofnodion crwydrol i mewn neu ofyn am sgwâr tetrad (sgwâr map 2x2 cilometr) y mae angen ymweld ag ef, cysylltwch â'r Atlas os gwelwch yn dda (**www.birdatlas.net**).

Sue Tranter (rspb-images.com)

Mae'r gwybedog brith wedi mynd i lawr o'r rhestr werdd i'r rhestr goch

Statws Poblogaeth Adar yng Nghymru 2

1 Mae prif gyrff cadwraeth adar Cymru wedi adolygu statws poblogaeth 213 o adar yng Nghymru, ac wedi diweddaru adolygiad 2002.

2 Mae'r adar ar y rhestr goch mewn perygl yn fyd-eang, neu wedi prinhau'n ddifrifol un ai'n hanesyddol neu'n ddiweddar. Mae'r adar ar y rhestr ambr yn dangos adferiad wedi prinhad hanesyddol, prinhad canolig, neu maent yn adar lleol, prin neu ryngwladol bwysig. Gosodwyd adar eraill ar y rhestr werdd, yn cynnwys y rhai a oedd yn dangos adferiad pellach.

3 Gosodwyd 45 (21%) o adar ar y rhestr goch, cynnydd o 18. Gosodwyd 100 (47%) o adar ar y rhestr ambr – cynnydd o 31, a gosodwyd 68 (32%) ar y rhestr werdd – cwymp o 57. Symudwyd naw i restrau is, tra bod 63 wedi eu symud i restrau uwch – gyda saith yn symud yn syth o'r rhestr werdd i'r goch.

4 Y rheswm amlaf dros symud i restr uwch oedd tystiolaeth o brinhad diweddar yn eu poblogaeth. Ymysg y rhesymau dros symud i restr is roedd gwell statws yn Ewrop ac nad oedd yr adar bellach yn brin.

5 Dylid defnyddio'r rhestrau adolygedig hyn, ynghyd â gwybodaeth ar ffactorau eraill (ee bygythiadau a wynebir nawr ac yn y dyfodol, dichonoldeb gweithredu a thebygolrwydd o lwyddiant) i adnabod rhywogaethau â blaenoriaeth ar gyfer ymdrechion cadwraeth.

Cewch fanylion llawn ynglŷn â sut aseswyd rhywogaethau ar **www.rspb.org.uk/wales**



Ben Hall (rspb-images.com)

Hwyaden bengoch

Rhestr goch 2009

Rhywogaeth	Ar restr 2002
Gŵydd dalcen-wen	C
Hwyaden bengoch	G
Grugiar goch	C
Grugiar ddu	C
Petrisen	C
Aderyn drycin Balearig	HA
Boda tinwyn	C
Cudyll coch	A
Rhegen fraith	A
Rhegen yr ŷd	C
Cwtiad aur Ewropeaidd	C
Cwtiad llwyd	A
Cornchwiglen y Gogledd	C
Pibydd y mawn	A
Rhostog gynffonfraith	C
Gylfinir Ewrasiaidd	C
Gwylan y gweunydd	A
Gwylan y penwaig	G
Gwylan gefnddu fwyaf	A
Môr-wennol wridog	A
Môr-wennol gyffredin	C
Môr-wennol y Gogledd	A
Môr-wennol fechan	A
Pâl	C
Turtur	C
Cog gyffredin	C
Tylluan glustiog	G
Cnocell fraith leiaf	A
Siglen felen	C
Mwyalchen y mynydd	C
Troellwr bach	C
Telor y coed	C
Telor yr helyg	G
Gwybedog mannog	G
Gwybedog fraith	A
Titw barfog	G
Titw'r wern	HA
Titw'r helyg	C
Drudwen gyffredin	C
Golfan y mynydd	C
Llinos	A
Llinos y mynydd	A
Llinos bengoch leiaf	G
Coch y berllan	C
Bras melyn	C
Bras yr ŷd	C

(C=Coch, A=Ambr, G=Gwyrdd, HA = Heb eu hasesu)

Welsh Ornithological Society
Cymdeithas Adaregol Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Rhestr ambr 2009

Rhywogaeth	Ar restr 2002
Alarch dof	G
Alarch Bewick	A
Gŵydd wyran	A
Gŵydd ddu	A
Hwyaden yr eithin	A
Chwiwell Ewrasiaidd	A
Hwyaden lwyd	A
Corhwyaden Ewrasiaidd	A
Hwyaden wyllt	A
Hwyaden lostfain	A
Hwyaden addfain	A
Hwyaden llydanbig	A
Hwyaden gopog	G
Hwyaden benddu fwyaf	A
Hwyaden fwythblu gyffredin	A
Hwyaden gynffon-hir	G
Môr-hwyaden ddu	A
Môr-hwyaden y Gogledd	G
Lleian wen	G
Hwyaden frongoch	G
Sofliar gyffredin	A
Trochydd gyddfgoch	A
Trochydd gyddfddu	G
Trochydd mawr	G
Gwyach yddfgoch	G
Gwyach gorniog	G
Gwyach yddfddu	G
Aderyn drycin du	G
Aderyn drycin Manaw	A
Pedryn drycin Ewropeaidd	A
Pedryn cynffon-fforchog	G
Hugan y Gogledd	A
Mulfran fawr	A
Aderyn y bwn Ewrasiaidd	C
Llwybig Ewrasiaidd	HA
Boda'r mêl	A
Barcud	A
Boda'r gwerni	G
Gwalch y pysgod	G
Cudyll bach	A
Hebog yr ehedydd	A
Pioden fôr	A
Cambig	G
Cwtiad torchog	C
Pibydd yr aber coch	C
Pibydd y tywod	G
Pibydd torchog	G
Gïach bach	G
Gïach cyffredin	A

(C=Coch, A=Ambr, G=Gwyrdd, HA = Heb eu hasesu)

Rhywogaeth	Ar restr 2002
Cyffylog	A
Rhostog gynffonddu	A
Coegylfinir	A
Pibydd coesgoch mannog	G
Pibydd coesgoch cyffredin	A
Pibydd y dorlan	G
Cwtiad y traeth	A
Sgiwen yr Arctig	G
Sgiwen gynffon-hir	G
Gwylan Môr y Canoldir	G
Gwylan fechan	NA
Gwylan gefnddu leiaf	A
Môr-wennol bigddu	A
Môr-wennol ddu	G
Gwylog gyffredin	G
Gwylog ddu	A
Tylluan wen	A
Tylluan glustiog	A
Troellwr mawr Ewropeaidd	A
Gwennol ddu gyffredin	G
Glas y dorlan cyffredin	A
Cnocell werdd	A
Ehedydd	A
Gwennol y glennydd	A
Gwennol	A
Gwennol y bondo	G
Corhedydd y coed	G
Corhedydd y waun	G
Bronwen y dŵr	G
Tingoch du	G
Tingoch cyffredin	A
Tinwen y garn Gogleddol	G
Socan eira	G
Bronfraith	A
Coch dan adain	G
Telor yr ardd	G
Llwydfron gyffredin	G
Telor Dartford	A
Dryw eurben	G
Dryw penfflamgoch	A
Titw cynffon-hir	G
Titw penddu	G
Brân goesgoch big-goch	A
Brân lwyd	HA
Aderyn y to	A
Gylfinbraff	G
Bras y Gogledd	G
Bras yr eira	G
Bras y cyrs	A

(C=Coch, A=Ambr, G=Gwyrdd, HA = Heb eu hasesu)

Andy Hay (rspb-images.com)

Aderyn y to

Tom Marshall (rspb-images.com)

Pioden fôr

Cyhoeddir *Sefyllfa Adar yng Nghymru 6* ar y cyd gan:

RSPB Cymru
Tŷ Sutherland, Pontycastell, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd CF11 9AB
www.rspb.org.uk/wales

Cymdeithas Adara Cymru
Welsh Ornithological Society
Cymdeithas Adaregol Cymru
Ian Spence, Ysgrifennydd, 43 Blackbrook, Sychdyn, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint CF7 6LT
www.welshornithologicalsociety.org.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales
Maes y Ffynnon, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd LL57 2DN
www.ccw.gov.uk

Y BTO
The Nunnery, Thetford, Norfolk IP24 2PU
www.bto.org

Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir
Canolfan Gwlyptir Cenedlaethol Cymru, Penclacwydd, Llwynhendy, Llanelli SA14 9SH
www.wwt.org.uk

Clawr blaen: telor y coed gan Steve Round (rspb-images.com)

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (yr RSPB) yn elusen gofrestredig:
Lloegr a Chymru rhif 207076, Yr Alban rhif SC037654
860-1668-08-09